# Llwybrau Cerdded i Ysgolion RhCT Asesu

## Ynys-boeth i Ysgol Gyfun Aberpennar

Mawrth 2025



# YMWADIAD CYFFREDINOL:

Cafodd yr adroddiad yma ei baratoi gan Redstart o blaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cleient") ac mae at ddefnydd a budd y Cleient yn unig yn unol â'r cytundeb rhwng y Cleient a Redstart y cafodd gwasanaethau Redstart eu cyflawni oddi tano. Heblaw am atebolrwydd nad oes modd ei eithrio yn ôl y gyfraith, dydy Redstart ddim yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti arall mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad yma.

Er y cymerwyd gofal wrth lunio'r adroddiad yma, mae'r casgliadau a'r argymhellion sydd ynddo yn seiliedig ar wybodaeth a gafodd ei darparu gan drydydd parti ("Gwybodaeth Trydydd Parti"). At ddibenion yr adroddiad yma, mae Redstart wedi dibynnu ar yr Wybodaeth Trydydd Parti a chymryd yn ganiataol ei bod yn gywir ac yn gyflawn. Nid yw wedi gwirio gwybodaeth o'r fath yn annibynnol at ddibenion yr adroddiad yma. Dydy Redstart ddim yn gwneud unrhyw gynrychiolaeth, gwarant nac ymgymeriad (datganedig neu ymhlyg) yng nghyd-destun Gwybodaeth Trydydd Parti a dydy Redstart ddim yn cymryd nac yn derbyn cyfrifoldeb am ddigonolrwydd, cyflawnrwydd na chywirdeb yr adroddiad yng nghyd-destun yr Wybodaeth Trydydd Parti sy'n sail iddo.

# RHYDDID GWYBODAETH:

Mae Redstart yn deall ac yn cydnabod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf") ac mae'n llwyr werthfawrogi y gallai fod yn ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd ganddo o dan delerau'r Ddeddf.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Aliniad Polisi | 3 |
| 3. | Gweithdrefnau | 5 |
| 4. | Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded | 6 |
| 5. | Arolygon Cerddwyr/Traffig | 27 |
| 6. | Materion Cymdeithasol | 32 |
| 7. | Data Gwrthdrawiadau | 35 |
| 8. | Trosolwg Llwybr | 36 |
| 9. | Casgliad ac Argymhellion | 40 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Redstart wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) i gynnal asesiad i weld a oes llwybr cerdded ar gael rhwng The Feel Good Factory (ger Ynys-boeth) ac Ysgol Gyfun Aberpennar.

1.2 A siarad yn gyffredinol, bydd llwybr ar gael os yw'n ddigon diogel i ddisgybl gerdded ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn priodol, gan ddibynnu ar oedran y disgybl. Yn rhan o waith asesu’r llwybr cerdded, bydd asesiad o'r peryglon sy’n wynebu plant a’r rhieni/cynhalwyr sy’n eu hebrwng ar hyd y llwybr rhwng y cartref a’r ysgol angen yn cael ei gynnal.

1.3 Bydd asesiadau o’r fath yn dilyn Darpariaethau Statudol Llywodraeth Cymru ar yr Asesiad Risg o Lwybrau Cerdded i’r Ysgol, fel y nodir yn Narpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014.

# 2. Aliniad Polisi

2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi’r fframwaith cyfreithiol y gwneir darpariaethau teithio oddi mewn iddo ar gyfer dysgwyr sy’n teithio o’r cartref i’r ysgol. Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi’r Mesur ar waith.

2.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy’n cerdded i’r ysgol. Mae’r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr i’r ysgol ‘ar gael’ (diogel) i’w gerdded neu’n cael ei ystyried ‘ddim ar gael’ (anniogel) a’r mesurau diogelu y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y llwybr ‘ar gael’ (yn ddiogel) i’w gerdded neu y gall ddod yn ‘ddiogel’.

2.3 Mae dogfen Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i’r materion a ganlyn gael eu hystyried wrth asesu llwybr;

Er mwyn i lwybr gael ei ddosbarthu'n un sydd ar gael (diogel) mae angen i'r llwybr fod;

- Yn droedffordd ddigonol barhaus ar ffyrdd sy'n cludo traffig canolig i drwm; **neu**
- “Camau i lawr” ar ffyrdd sydd â llif traffig isel ond llinellau gweld digonol i roi digon o rybudd ymlaen llaw i yrwyr a cherddwyr; **neu**
- Ar ffyrdd gyda llif traffig isel iawn, dim “camau i lawr”, ond digon o linellau gweld da i roi digon o rybudd ymlaen llaw.

Os oes angen croesffordd, argymhellir bod un o'r mesurau diogelwch canlynol:

- Lloches i gerddwyr; **neu**
- Gweledigaeth – dylai fod yn ddigon da i ganiatáu i gerbydau stopio’n ddiogel (o ystyried y rheol cyflymder yr 85fed canradd, mae pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau’r Ffordd Fawr); **neu**
- Digon o fylchau yn llif y traffig a’r llinell weld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi’n ddiogel; **neu**
- Digon o gyfleusterau croesi (er enghraifft, croesfannau sebra, pelican); **neu**
- Digon o gamau i gerddwyr wrth y goleuadau traffig (gan gynnwys llochesi angenrheidiol); **neu**
- Digon o Hebryngwyr Croesfan Ysgol (pobl lolipop).

2.4 Dylid ystyried y wybodaeth ganlynol fel y manylir yn y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr a'i chrynhoi isod;

a) Cyfyngiadau cyflymder o gwmpas neu gerllaw ysgolion;

b) Llif traffig dwy ffordd a gofnodir mewn Unedau Ceir Teithwyr (PCUs) - mae llif traffig isel yn cael ei bennu o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr, llif traffig canolig rhwng 400 ac 840 a llif traffig trwm dros 840 o gerbydau yr awr. Asesir bod ffordd â llai na 240 o gerbydau yr awr yn ddiogel i'w chroesi, sy'n cyfateb i 1 cerbyd bob 15 eiliad;

c) Mae angen dadansoddiad o fylchau mewn traffig am 5 munud yn olynol. Ystyrir bod 4 bwlch o fewn cyfnod o 5 munud o'r fath yn dderbyniol. Ar gyflymder cerdded o 1 metr yr eiliad bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad tra bydd angen bwlch mwy o tua 10 i 12 eiliad ar eraill;

d) Hanes gwrthdrawiadau blaenorol am 3 blynedd o leiaf;

e) Lled, cyflwr, a gweledEdd llwybr troed. Ar ffyrdd â llif traffig isel gellir tybio fel arfer bod llain ymyl y gall plentyn a'r rhiant sy'n ei hebrwng gamu arni pan fydd traffig yn mynd heibio yn darparu llwybr sydd ar gael;

f) Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig;

g) Dylid ystyried llifogydd posibl ac, os oes angen, nodweddion diogelwch gan gynnwys arwyddion, goleuadau, rhwystrau diogelwch;

h) Unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardal a allai gael effaith ar lwybrau cerddwyr;

i) Croesfannau rheilffordd;

j) Perygl cymdeithasol a achosir gan unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl;

k) Unrhyw newidiadau i nodweddion y bobl sy'n cerdded y llwybr.

2.5 Mae Perygl Cymdeithasol yn agored i ddehongliadau gwahanol ac mae'n oddrychol. O ran mesur perygl cymdeithasol, dylai tystiolaeth fod ar fael i nodi unrhyw beryglon o'r fath.

2.6 Wrth gynnal asesiadau risg, argymhellir bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau/asiantaethau sydd ag arbenigedd mewn (gan gynnwys cyfrifoldeb am) fynd i'r afael â pherygl cymdeithasol a'i fesur. Mae gan yr Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyfrifoldeb am droseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am faterion diogelu/amddiffyn plant.

2.7 Mae eu cyfranogiad yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth, asesu, a rheoli unrhyw risgiau o'r fath. Felly, nid yw Redstart wedi'i gomisiynu i nodi materion yn ymwneud â pheryglon cymdeithasol a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# 3. Gweithdrefnau

## 3.1 Ymweliad Safle

3.1.1 Cynhaliwyd asesiad safle cerdded i ymchwilio i'r llwybr ac i nodi peryglon / gwaith adfer posibl sydd ei angen er mwyn darparu llwybr cerdded diogel. Cafodd y llwybr ei gerdded ar adegau i ddal amodau traffig arferol yn ystod yr amser yr oedd plant ysgol yn cerdded y llwybr.

3.1.2 Rhestrir isod enghreifftiau o beryglon safle nodweddiadol a fydd yn cael eu hystyried o ganlyniad i'r asesiad cerdded:

- Rhyng-welededd rhwng gyrwyr a cherddwyr, ar hyd y llwybr ac ar gyffyrdd bach;
- Nifer uchel o draffig wrth groesfannau a mathau o gerbydau sy'n defnyddio'r llwybr;
- Cyflwr wyneb y llwybr troed, lled defnyddiadwy, a chysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos;
- Unrhyw ddail sydd wedi gordyfu sy'n rhwystro symudiadau cerddwyr/sy'n culhau'r lled defnyddiadwy;
- Cerbydau'n parcio ar y droedffordd gan achosi rhwystr/gan gulhau'r lled defnyddiadwy.

## 3.2 Gwybodaeth i'w Darparu

3.2.1 Mae'r wybodaeth ganlynol i'w darparu yn rhan o'r asesiad:

a) Cynllun yn dangos y llwybrau a aseswyd;


b) Adroddiad yn nodi peryglon/risgiau posibl ac adferiad posibl ar gyfer pob perygl posibl a nodwyd.

# 4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded

## 4.1 Trosolwg Llwybr

4.1.1 Mae'r **Prif Lwybr** rhwng The Feel Good Factory yn Ynys-boeth, CF45 4XZ a gatiau cefn Ysgol Gyfun Aberpennar, Heol Newydd, Aberpennar CF45 4DG. Mae dau Is-lwybr arall hefyd wedi'u hasesu'n rhan o'r adroddiad, gyda'r tri llwybr wedi'u dangos yn **Nelwedd 4.1** isod.

**Delwedd 4.1 – The Feel Good Factory i Ysgol Gyfun Aberpennar (Delwedd © 2024 Airbus)**




- Mae'r **Prif Lwybr** - The Feel Good Factory i Ysgol Gyfun Aberpennar (mynedfa gefn) trwy, Heol Abercynon, Yr Heol Fawr, Coedlan Pentwyn (B4275), Heol Abercynon, Teras Vaughan, Stryd Rheola, Heol Penrhiwceibr, Heol Meisgyn, Stryd Rhydychen, Pont Tref Aberpennar, Cilgant y Ffrwd, Heol Newydd, Heol y Dyffryn, llwybr troed y tu ôl i'r caeau rygbi i gatiau cefn Ysgol Gyfun Aberpennar.

- **Is-lwybr 1** – Pont Pentwyn i Bont Tref Aberpennar ar hyd Stryd Morgannwg, (yn gadael y **Prif Lwybr**) Teras y Ddraenen Wen, Heol Llanwynno, Stryd Fawr, a Stryd Pryce, ac yn ail-ymuno â'r **Prif Lwybr** ger Pont Tref Aberpennar.

- **Is-lwybr 2** – Stryd Morgannwg i Heol Penrhiwceibr ar hyd Heol Penybryn, (yn gadael **Is-lwybr 1**) Trem Harris, Stryd y Groes, ac yn ail-ymuno â'r **Prif Lwybr** ger Heol Penrhiwceibr).

## 4.2 Prif Lwybr – The Feel Good Factory i Ysgol Gyfun Aberpennar (mynedfa gefn)

4.2.1 Mae darnau di-dor o droedffordd, gyda chyfleoedd croesi a goleuadau stryd ar hyd y llwybr. Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y llwybr yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae hyn yn lleihau ar gyfer rhai rhannau byr gyda'r gofyniad i gerddwyr naill ai ildio i'w gilydd neu groesi i ochr arall y ffordd. Mae disgyblion eisoes yn cerdded y llwybr hwn o Bwll Padlo Gerddi Lee i Ysgol Gyfun Aberpennar ac mae cysylltiadau ag Ysgolion Cynradd Ynys-boeth, Penrhiwceiber a Pherthcelyn eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.

4.2.2 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.2.3 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed drwy gydol y daith gan groesfannau sebra, signalau traffig, lloches ganolog a mannau croesi heb eu rheoli eraill.

4.2.4 Mae terfyn cyflymder 20mya ar waith ar hyd y rhan fwyaf o'r llwybr, lle gwelwyd bod y llif cerbydau yn gymedrol.

4.2.5 Mewn mannau, roedd angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio a gwelededd i gerddwyr.

4.2.6 Mae ffotograffau 4.1 i 4.19 a dynnwyd ar hyd y llwybr cerdded i'w gweld isod.

**Ffotograff 4.1 - Grisiau ar y gyffordd â Stryd Walsh (troedffordd ogleddol)**



**Ffotograff 4.2 – Croesfan Sebra i'r gorllewin o'r gyffordd â Stryd Walsh**




**Ffotograff 4.3 – Troedffordd ogleddol Coedlan Pentwyn ar ddiwrnod casglu sbwriel**



**Ffotograff 4.4 – Llwybr troed deheuol Coedlan Pentwyn - materion parcio ar y stryd**




**Ffotograff 4.5 – B4275 Coedlan Pentwyn tuag at Deras Vaughan gyda llwybr troed yn culhau ar y ddynesfa at y tro**



**Ffotograff 4.6 – Croesfan 'llinell ddymuniad' lydan ar gyffordd Stryd Rheola â Theras Vaughan**



**Ffotograff 4.7 – Troedffordd Ddwyreiniol y B4275 Heol Penrhiwceibr**



**Ffotograff 4.8 – Croesfan Sebra y B4275 Heol Penrhiwceibr yng Ngerddi Lee**




**Ffotograff 4.9 – Troedffordd Ddwyreiniol y B4275 Heol Penrhiwceibr ar Ddiwrnodau Casglu Sbwriel/Ailgylchu**



**Ffotograff 4.10 – Croesfan Sebra'r B4275 Heol Penrhiwceibr yn Ysgol Gynradd Pengeulan**




**Ffotograff 4.11 – Ffordd Ddwyreiniol y B4275 Heol Penrhiwceibr yn culhau**



**Ffotograff 4.12 – Troedffordd orllewinol y B4275 Heol Penrhiwceibr, llystyfiant yn culhau'r llwybr troed wrth ddynesu at y Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm.**




**Ffotograff 4.13 – Rhan fer o droedffordd yn culhau ar y B4275 Heol Meisgyn**



**Ffotograff 4.14 – Y B4275 Heol Meisgyn i Ganol Tref Aberpennar**




**Ffotograff 4.15 – Man croesi heb ei reoli yng Nghanol Tref Aberpennar**



**Ffotograff 4.16 – Man croesi heb ei reoli ar y ffordd fynediad i Heol y Dyffryn**




**Ffotograff 4.17 – Cyswllt troedffordd i faes parcio Clwb Rygbi Aberpennar**



**Ffotograff 4.18 – Troedffordd y tu ôl i brif eisteddle Clwb Rygbi Aberpennar**




**Ffotograff 4.19 – Cyswllt troedffordd i berimedr Ysgol Gyfun Aberpennar**



## 4.2 Is-lwybr 1 – Pont Pentwyn i Bont Tref Aberpennar

4.2.1 Mae darnau di-dor o droedffordd, gyda chyfleoedd croesi a goleuadau stryd ar hyd y llwybr. Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y llwybr yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae hyn yn lleihau ar gyfer rhai rhannau byr gyda'r gofyniad i gerddwyr naill ai ildio i'w gilydd neu groesi i ochr arall y ffordd. Mae disgyblion eisoes yn cerdded y llwybr hwn o Bwll Padlo Gerddi Lee i Ysgol Gyfun Aberpennar ac mae cysylltiadau ag Ysgolion Cynradd Ynys-boeth, Penrhiwceiber a Pherthcelyn eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.

4.2.2 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.2.3 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed drwy gydol y daith gan groesfannau sebra, signalau traffig, lloches ganolog a mannau croesi heb eu rheoli eraill.

4.2.4 Mae terfynau cyflymder 20mya a 30mya ar waith ar hyd y llwybr, lle gwelwyd bod llif a chyflymder cerbydau yn isel i gymedrol ar y cyfan, ac yn uchel ar hyd yr A4059 Heol Newydd.

4.2.5 Mewn mannau, mae angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio a gwelededd i gerddwyr.

4.2.6 }Mae ffotograffau 4.20 i 4.32 a dynnwyd ar hyd y llwybr cerdded i'w gweld isod.

**Ffotograff 4.20 Croesfan ffordd o droedffordd y B4275 i'r gyffordd â Stryd Morgannwg i gyrraedd Perthcelyn**



**Ffotograff 4.21 – Ymestyn llwybrau troed i wella cyfleusterau croesi i gerddwyr ar Stryd Morgannwg**




**Ffotograff 4.22 – Ymestyn llwybrau troed i wella cyfleusterau croesi i gerddwyr ar Stryd Morgannwg**



**Ffotograff 4.23 – Ymestyn llwybrau troed i wella cyfleusterau croesi i gerddwyr ar Stryd Morgannwg**




**Ffotograff 4.24 – Ymestyn llwybrau troed i wella cyfleusterau croesi i gerddwyr ar Deras y Ddraenen Wen**



**Ffotograff 4.25 – Ymestyn llwybrau troed i wella cyfleusterau croesi i gerddwyr ar Deras y Ddraenen Wen**




**Ffotograff 4.26 – Parcio ar lwybrau troed yn lleihau'r lled defnyddiadwy yn Llwyn Onn**



**Ffotograff 4.27 – Ymestyn llwybrau troed i wella cyfleusterau croesi i gerddwyr ar Deras y Ddraenen Wen**




**Ffotograff 4.28 – Canghennau coed yn hongian ger y rhyngwyneb rhwng Teras y Ddraenen Wen a Heol Llanwynno**



**Ffotograff 4.29 – llwybr troed Heol Llanwynno**




**Ffotograff 4.30 – Parcio ar droedffyrdd yn lleihau eu lled defnyddiadwy ar hyd Heol Llanwynno**



**Ffotograff 4.31 – Troedffordd ar Heol Llanwynno ar gael ar un ochr yn unig**




**Ffotograff 4.32 – Y droedffordd wedi'i chulhau'n lleol oherwydd biniau sbwriel ar Heol Llanwynno, gan leihau lled y llwybr troed sydd ar gael**



## 4.2 Is-lwybr 2 – Stryd Morgannwg i’r B4275 Heol Penrhiwceibr (gan ailymuno â’r Prif Lwybr)

4.2.1 Mae darnau di-dor o droedffordd, gyda chyfleoedd croesi a goleuadau stryd ar hyd y llwybr. Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y llwybr yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae disgyblion eisoes yn cerdded y llwybr hwn i Ysgol Gyfun Aberpennar ac mae cysylltiadau ag Ysgolion Cynradd Ynys-boeth, Penrhiwceiber a Pherthcelyn eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.

4.2.2 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.2.3 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed drwy gydol y daith gan groesfannau sebra, signalau traffig, lloches ganolog a mannau croesi heb eu rheoli eraill.

4.2.4 Mae terfyn cyflymder 20mya ar waith ar hyd y llwybr, lle gwelwyd bod y llif cerbydau a'r cyflymder yn isel.

4.2.5 Mewn mannau, roedd angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio a gwelededd i gerddwyr

4.2.6 Mae ffotograffau 4.33 i 4.37 a dynnwyd ar hyd y llwybr cerdded i'w gweld isod. Mae rhan gychwynnol y llwybr o Bont Pentwyn fel y dangosir yn y ffotograffau ar gyfer **Is-lwybr 1**.

**Ffotograff 4.33 – Cyffordd o Stryd Morgannwg (Is-lwybr 1) i Heol Penybryn**



**Ffotograffau 4.34 – Troedffordd ar hyd Trem Harris yn y man lle mae angen i gerddwyr groesi er mwyn sicrhau cysylltedd, nodwyd bod cyflymder traffig a llif yn isel iawn.**




**Ffotograffau 4.35 – Grisiau ar hyd llwybr troed Trem Harris**



**Ffotograffau 4.36 – Troedffordd ar hyd ochr orllewinol Trem Harris yn unig**




**Ffotograffau 4.37 – cyswllt croesfan sebra o Stryd y Groes i'r B4275 Heol Penrhiwceibr (Prif Lwybr)**



# 5. Arolygon Cerddwyr / Traffig

5.1 Mae Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr yn nodi: Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig. Lle nad oes cyfleusterau croesi, dylai asesiad risg y llwybr ystyried pob croesfan ffordd ofynnol, gan gofio cyflymder a llif traffig, llinellau gweld ac ati.

5.2 Os oes angen croesi ffyrdd dylai fod:

- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinellau gweld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel. Dylai'r dadansoddiad amser bwlch gael ei ddefnyddio lle bo angen **neu**
- Llochesi i gerddwyr **neu**
- Cyfleusterau croesi (e.e. sebra, pelican, pâl ac ati) **neu**
- Cyfnod cerddwyr wrth y goleuadau traffig **neu**
- Hebryngwr Croesfan Ysgol.

5.3 Os oes angen croesi ffordd dylai'r gwelededd yn y lleoliad ganiatáu i gerbyd stopio, o ystyried cyflymder yr 85fed canradd (y cyflymder y mae 85% o'r cerbydau'n teithio islaw) o'r llif traffig. Dylid cymryd pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'n debygol y bydd angen arfer barn barhaus. Ni all unrhyw feini prawf ddarparu'r holl arweiniad nac atebion i bob sefyllfa bosibl.

5.4 Os oes rhaid croesi ffyrdd i ddefnyddio troedffordd neu i wella llinellau gweld, efallai y bydd angen rhoi cyngor ar fannau croesi diogel. Ar rai ffyrdd gwledig efallai na fydd y droedffordd yn barhaus.

5.5 Bydd yn rhaid gwneud dyfarniad gwybodus ynghylch argaeledd mannau "cam i lawr".

5.6 Gellir asesu pa mor anodd yw croesi safle drwy ystyried nifer y bylchau yn llif y traffig sy'n dderbyniol i gerddwyr. Gall traffig sy'n llifo'n rhydd greu bylchau ar hap ac yn weddol aml, ond mae cyflymderau'n tueddu i fod yn uwch, a byddai angen i fylchau fod yn hirach er mwyn croesi'r ffordd yn ddiogel.

5.7 Mae bwlch derbyniol o ran croesi o un ochr y ffordd i'r llall yn amrywio rhwng pob person. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Efallai y bydd angen bylchau mwy o tua 10 i 12 eiliad ar rai eraill.

5.8 Argymhellir bod yr arolwg yn cofnodi nifer y bylchau ym mhob cyfnod o 5 munud sy'n hwy nag amser croesi'r ffordd, gan ddefnyddio un metr yr eiliad fel y cyflymder cerdded. Mae pedwar bwlch ym mhob cyfnod o 5 munud yn dynodi ffordd y gellir ei chroesi heb ormod o oedi. Gallai bylchau hirach fod wedi'u dosbarthu'n fylchau lluosog yn hytrach nag 1 bwlch yn unig.

5.9 Argymhellir cynnal arolygon traffig yn y lleoliadau canlynol:

5.9.1 Y droedffordd gul cyn y grisiau ar y ddynesfa at gyffordd y B4275 â Stryd Walsh lle mae angen posibl i gerddwyr groesi yn y lleoliad hwn er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos er mwyn osgoi'r droedffordd gul a'r grisiau.




5.9.2 Ger yr arhosfan bws i'r gogledd o rif 92 Coedlan Pentwyn lle mae angen i gerddwyr groesi er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos.




5.9.3 Ar hyd ochr dde-ddwyreiniol y B4275 Ffordd Abercynon (rhwng Coedlan Pentwyn a Theras Vaughan), nid oes llwybr troed neu fan 'camu i lawr' gerllaw. Oherwydd lled y llwybr troed cul mewn mannau (tua 1.0m), mae'n bosibl y bydd yn rhaid i gerddwyr gamu i'r gerbytffordd i fynd heibio ei gilydd ar y droedffordd sy'n arwain at Deras Vaughan. Gwaethygir hyn ymhellach oherwydd gwelededd cyfyngedig i gerbydau sy'n dod at y tro.






5.10 Cynhaliodd Swyddogion Trafnidiaeth RhCT gyfrifiadau traffig mewn lleoliadau amrywiol ar hyd y B4275, gyda data cyflymder yr 85fed canradd wedi'i gasglu hefyd ar y dynesfeydd tua'r gogledd a thua'r de i Deras Vaughan.

5.11 Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr – Mehefin 2014 yn amlinellu'r hyn sydd ei angen wrth asesu Llif Traffig ar Ffyrdd.

5.11.1 Ystyr llif traffig isel yw ffyrdd sydd â llif traffig o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr; llif traffig canolig yw ffyrdd sydd â llif traffig rhwng 400 ac 840 cerbyd yr awr; a llif traffig trwm yw ffyrdd sydd â llif traffig o dros 840 o gerbydau yr awr.

5.11.2 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Ystyrir bod pedwar bwlch o'r fath o fewn cyfnod o 5 munud yn dderbyniol. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio 6 eiliad a lle mae'r bwlch yn fwy na neu'n hafal i 12 eiliad mae hyn wedi'i gyfrif fel 2 neu fwy o fylchau.

5.12 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig mewn 3 lleoliad gwahanol fel y manylir isod, gyda chyfrifiadau rhwng 07:45 a 08:45 a 15:15 a 16:15. Yn unol â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr, mae'r cyfnod a gofnododd y traffig mwyaf wedi'i gynnal eto i gadarnhau dibynadwyedd y data.

5.12.1 **Lleoliad 1 – Cyffordd Stryd Walsh a'r B4275 – 24/09/2024**

- **Yn y bore:** 343 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 18 i 36, gyda chyfanswm o 352 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 428 cerbyd yr awr, llif traffig canolig, sef 400>. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 17 i 30, gyda chyfanswm o 287 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.2 **Ailymweld â Lleoliad 1 – Cyffordd Stryd Walsh a'r B4275 – 27/09/2024**

- **Yn y prynhawn:** 398 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 14 i 26, gyda chyfanswm o 241 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.3 **Lleoliad 2 – 92 Coedlan Pentwyn – 25/09/2024**

- **Yn y bore:** 354 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 16 i 37, gyda chyfanswm o 305 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 391 cerbyd yr awr, llif traffig isel, sef <400. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 19 i 38, gyda chyfanswm o 306 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.4 **Ailymweld â Lleoliad 2 – 92 Coedlan Pentwyn – 26/09/2024**

- **Yn y prynhawn:** 424 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 17 i 27, gyda chyfanswm o 267 o fylchau dros y cyfnod awr

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.5 **Lleoliad 3 – Dynesfa i Deras Vaughan – 03/10/2024**

- **Yn y bore:** 230 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 12 i 38, gyda chyfanswm o 325 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 267 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 19 i 45, gyda chyfanswm o 352 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.6 **Ailymweld â Lleoliad 3 – Y ddynesfa at Deras Vaughan – 08/10/2024**

- **Yn y prynhawn:** 342 cerbyd yr awr, llif traffig isel. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 8 i 37, gyda chyfanswm o 322 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.13 Mae'r adran o'r canllawiau Teithio gan Ddysgwyr sy'n ymwneud â'r ***Gweithdrefn Asesu Risg mewn Perthynas â Risgiau Corfforol/Traffig*** yn cwmpasu'r berthynas rhwng dysgwyr a thraffig. Fel cerddwyr, mae dysgwyr yn wynebu nifer o beryglon wrth gerdded y llwybr. Wrth asesu ***Amodau Llwybr*** er mwyn i lwybr gael ei ddosbarthu'n llwybr sydd ar gael, mae Gweinidogion Cymru yn argymell bod angen i'r llwybr fod:

- Yn droedffordd ddigonol barhaus ar ffyrdd sy'n cludo traffig canolig i drwm neu
- “Camau i lawr” ar ffyrdd sydd â llif traffig isel ond llinellau gweld digonol i roi digon o rybudd ymlaen llaw i yrwyr a cherddwyr neu
- Ar ffyrdd gyda llif traffig isel iawn, dim “camau i lawr”, ond digon o linellau gweld da i roi digon o rybudd ymlaen llaw.

5.13.1 **Casglwyd Data Cyflymder yr 85fed canradd yn Nheras Vaughan rhwng 18/10/2024 a 24/10/2024, lle nodwyd y canlynol:**

- **Tua'r gogledd tuag at Aberpennar:** Cyflymder yr 85$^{fed}$ canradd o 39.1mya gyda chyfartaledd 5 diwrnod o 1964 cerbyd y dydd.

- **Tua'r de i Ynysboeth:** Cyflymder yr 85$^{fed}$ canradd o 37.7mya gyda chyfartaledd 5 diwrnod o 2223 cerbyd y dydd.

**Mae llif traffig o fewn yr amrediad isel i ganolig yn y lleoliad hwn. Fodd bynnag, cofnodwyd bod cyflymder cerbydau'r 85$^{fed}$ canradd yn uwch na'r 20mya wedi'i nodi ar gyfer cerbydau sy'n mynd i mewn ac allan o Deras Vaughan.**

# 6. Materion Cymdeithasol

6.1 Nid oes gan y rhan o'r llwybr troed ar hyd y B4275 rhwng Coedlan Pentwyn a Theras Vaughan unrhyw adeiladau sy'n edrych drosti (ac eithrio garej nad yw o bosibl yn agored yn ystod amseroedd teithio) na gwyliadwriaeth naturiol am tua 500m, ac eithrio gan draffig sy'n mynd heibio neu gerddwyr eraill. Nid oes gan ran o'r llwybr troed ar Heol Llanwynno ychwaith unrhyw adeiladau sy'n edrych drosti na gwyliadwriaeth naturiol, ac eithrio traffig sy'n mynd heibio neu gerddwyr eraill, gweler **ffotograffau 6.1 a 6.2** isod. Mae yna hefyd ddarn byr o droedffordd y tu ôl i'r eisteddle ar y cae rygbi a fyddai'n elwa o gael y llystyfiant wedi'i glirio i wella cysur cerddwyr a lefelau goleuo, gweler **ffotograff 6.3**.

**Ffotograff 6.1 – Y B4275 Troedffordd Heol Abercynon - Coedlan Pentwyn i Deras Vaughan**



**Ffotograff 6.2 – Llwybr troed Heol Llanwynno**




**Ffotograff 6.3 – Llwybr Troed y tu ôl i Brif Eisteddle Clwb Rygbi Aberpennar**




6.2 Efallai y bydd materion eraill nad ydynt yn amlwg o asesiad ar droed, y byddai grwpiau defnyddwyr eraill yn eu nodi. Byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried yr agweddau hyn gyda'r Heddlu ac asiantaethau diogelu eraill.

# 7. Data Gwrthdrawiadau

7.1 Ymchwiliwyd i ddata gwrthdrawiadau cerddwyr ar gyfer y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 (wedi'u dilysu) trwy Crashmap.co.uk a data Gwrthdrawiadau Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu. Sylwch fod y Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i aseswyr ymgorffori 3 blynedd o hanes gwrthdrawiadau wrth asesu llwybr.

7.2 Mae'r data gwrthdrawiadau wedi cael ei ymchwilio yn ystod yr amseroedd y byddai plant ysgol yn cerdded y llwybr i nodi amodau traffig arferol yn ystod yr amser. Mae'r amseroedd hyn wedi'u nodi'n 07:00 – 09:30 ar gyfer taith yn y bore, a 14:30 – 17:00 ar gyfer taith yn y prynhawn.

7.3 Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr ar hyd unrhyw un o'r llwybrau yn ystod y cyfnod a aseswyd.

# 8. Trosolwg Llwybr

## 8.1 Prif Lwybr – The Feel Good Factory i Ysgol Gyfun Aberpennar (mynedfa gefn)

8.1.1 Mae'r llwybr o fewn terfynau cyflymder 30/20mya.

8.1.2 Mae troedffyrdd di-dor mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.1.3 Mae yna ran o droedffordd gul ar hyd ochr ddwyreiniol y B4275 Heol Abercynon (rhwng Coedlan Pentwyn a Theras Vaughan) heb unrhyw droedffordd neu fan 'camu i lawr' gerllaw. Er y gall fod angen i gerddwyr gamu i'r ffordd gerbydau i fynd heibio ei gilydd yn y lleoliad hwn, mae llifau cerbydau'n isel (230 cerbyd yr awr yn y bore a 267 yn y prynhawn) gyda chyfanswm o 325 o fylchau o 6 eiliad yr awr yn y bore a 352 yn y prynhawn. Wrth ddynesu at Deras Vaughan, wrth i'r ffordd droi, mae llinellau gweld yn cael eu lleihau ac mae hyn yn cael ei waethygu gan newid yn y terfyn cyflymder o 20mya i 30mya wrth adael Teras Vaughan, gyda cherbydau'n debygol o fod yn cyflymu i Heol Abercynon. Yn ogystal â hyn, nodir bod y cyflymderau traffig a gofnodwyd yn sylweddol uwch na'r terfynau wedi'u nodi, sef 39.1mya tua'r Gogledd tuag at Aberpennar a 37.7mya tua'r De tuag at Ynys-boeth.

8.1.4 Gwelwyd bod coed yn hongian dros rannau o'r llwybr troed ar hyd Heol Abercynon (rhwng Coedlan Pentwyn a Theras Vaughan), Heol Meisgyn a'r llwybr troed y tu ôl i'r eisteddle yng Nghlwb Rygbi Aberpennar.

8.1.5 Mae croesfan lydan ar gyffordd Heol Penrhiwceibr a Stryd Rheola, er bod dewis arall mwy diogel ar gael trwy groesi ymhellach i Stryd Rheola yn ei man mwyaf cul.

8.1.6 Mae rhannau ar hyd Heol Penrhiwceibr lle mae biniau olwynion yn cyfyngu ymhellach ar led y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio. Fodd bynnag, efallai bydd newid arfaethedig yn y dull casglu gwastraff - o gasglu biniau ar olwynion i fagiau du - yn helpu i leihau nifer y rhwystrau ar y droedffordd. Gall cerbydau sy'n rhwystro llwybrau troed (troedffyrdd deheuol) hefyd effeithio ar lwybrau cerdded, ond mae carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.1.7 Mae rhan leol o'r llwybr troed ar y B4275 Heol Penrhiwceibr (i'r gogledd o Ysgol Gynradd Pengeulan) lle mae lled y llwybr troed yn lleihau, a allai olygu bod angen i gerddwyr groesi i ochr arall y ffordd i osgoi'r droedffordd gul.

8.1.8 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.1.1 Mae ymchwiliadau i wrthdrawiadau cerddwyr wedi'u cynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.1.2 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.1.3 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan Sebra – Y B4275 i'r gorllewin o gyffordd Stryd Halswell a'r B4275 Heol Abercynon.
- Croesfan Sebra – Gerddi Lee ar y B4275 Heol Penrhiwceibr.
- Croesfan Sebra – Ysgol Gynradd Pengeulan ar y B4275 Heol Penrhiwceibr.
- Croesfan Sebra – Canol Tref Aberpennar y tu allan i ABC Dometics
- Croesfan Sebra – Canolfan Cilgant y Ffrwd y tu allan i Neuadd y Dref Aberpennar
- Croesfan â Signalau - Cyffordd Ffordd y Ffrwd a'r A4059 Heol Newydd
- Croesfan â Signalau – Cyffordd y Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm a'r B4275 Heol Meisgyn

8.1.4 Nid yw eiddo preswyl neu fasnachol yn edrych dros ddwy ran ar hyd y llwybr ond cânt eu defnyddio'n helaeth naill ai gan draffig sy'n mynd heibio neu gerddwyr:

- Y droedffordd ar hyd Heol Abercynon rhwng Coedlan Pentwyn a Theras Vaughan am tua 500m.
- Y llwybr troed y tu ôl i eisteddle Clwb Rygbi Aberpennar am tua 180m.

8.1.5 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig mewn 3 lleoliad gwahanol ar 3 diwrnod gwahanol, gyda chyfrifiadau rhwng 07:45 a 08:45 a 15:15 a 16:15. Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig yn y lleoliadau canlynol fel y nodir yn Adran 5:

- **Lleoliad 1** – Cyffordd Stryd Walsh a'r B4275 – 24/09/2024
- **Lleoliad 2** – 92 Coedlan Pentwyn – 25/09/2024
- **Lleoliad 3*** – Cyn Teras Vaughan – 03/10/2024

*Casglwyd data cyflymder yr 85fed canradd hefyd ar y dynesfeydd tua'r gogledd a thua'r de i Deras Vaughan.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Fodd bynnag, cofnodwyd bod cyflymder cerbydau'n uwch na'r 20mya wedi'i nodi ar gyfer cerbydau sy'n mynd i mewn ac allan o Deras Vaughan.**

8.1.6 Nid oedd unrhyw feysydd o bryder am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod yr ymweliad safle ar hyd y prif lwybr.

## 8.2 Is-lwybr 1 – Pont Pentwyn i Bont Tref Aberpennar (gan ymuno â'r Prif Lwybr)

8.2.1 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder 20/30mya.

8.2.2 Mae rhannau lleol o'r llwybr troed ar hyd Heol Llanwynno a'r Stryd Fawr lle mae'r llwybr troed yn dod i ben a bydd angen naill ai i gerddwyr gamu i'r gerbytffordd, neu groesi i'r droedffordd gyfagos i barhau. Lle mae'n ofynnol i gerddwyr groesi i lwybrau troed cysylltiol, maent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.2.3 Gwelwyd bod coed yn hongian dros rannau lleol o'r llwybr troed ar hyd Heol Llanwynno.

8.2.4 Mae llwybr cerdded troellog ar gyffordd â signalau Stryd Pryce a'r B4275 (trwy ganol tref Aberpennar), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gerddwyr gerdded i ffwrdd o'r gyffordd i fan croesi uchel i groesi'n ddiogel.

8.2.5 Mae rhannau ar hyd Heol Llanwynno a'r Stryd Fawr lle mae biniau olwynion yn cyfyngu ar led y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio. Fodd bynnag, efallai bydd newid arfaethedig yn y dull casglu gwastraff - o gasglu biniau ar olwynion i fagiau du - yn helpu i leihau nifer y rhwystrau ar y droedffordd. Gall cerbydau sy'n rhwystro llwybrau troed hefyd effeithio ar lwybrau cerdded, ond mae'r carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.2.6 Mae rhan leol o'r llwybr troed ger rhif 18 Heol Heol Llanwynno lle mae lled y droedffordd yn lleihau, a allai olygu bod angen i gerddwyr groesi i ochr arall y ffordd er mwyn osgoi'r droedffordd gul.

8.2.7 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.2.8 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi'i gynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.2.9 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.2.10 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan Sebra – Ar y B4275 i'r gorllewin o'r gyffordd â Chilgant y Ffrwd.

8.2.11 Nid yw eiddo preswyl neu fasnachol yn edrych dros ran ar hyd y llwybr ond cânt eu defnyddio'n helaeth naill ai gan draffig sy'n mynd heibio neu gerddwyr:

- Y droedffordd ar hyd Heol Llanwynno rhwng Teras y Ddraenen Wen a chyffordd Stryd Arthur a Heol Llanwynno am tua 550m.

8.2.12 Nid oes unrhyw feysydd o bryder am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod yr ymweliad safle ar hyd yr Is-lwybr.

## 8.3 Is-lwybr 2 – Stryd Morgannwg i'r B4275 Heol Penrhiwceibr (gan ailymuno â'r Prif Lwybr)

8.3.1 Mae'r llwybr o fewn terfyn cyflymder 20mya.

8.3.2 Mae rhan o'r llwybr troed ar hyd Trem Harris (Heol Penybryn) lle mae'r llwybr troed yn dod i ben a bydd angen i gerddwyr groesi i'r droedffordd gyfagos i barhau. Ar adeg yr ymweliad safle, lle'r oedd yn ofynnol i gerddwyr groesi i lwybrau troed cysylltiol, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.3.3 Gwelwyd bod coed yn hongian dros rannau lleol o'r llwybr troed ar hyd Drem Harris.

8.3.4 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.3.4 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi'i gynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.3.5 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.3.6 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan Sebra – Ar y B4275 Heol Penrhiwceibr gyferbyn â phwll Gerddi Lee.

8.3.7 Nid oes unrhyw feysydd o bryder am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod yr ymweliad safle ar hyd yr Is-lwybr.

# 9. Casgliad ac Argymhellion

## 9.1 Prif Lwybr – The Feel Good Factory i Ysgol Gyfun Aberpennar (mynedfa gefn)

9.1.1 Yn ei gyflwr presennol dywe'r Prif Lwybr, yn ei gyfanrwydd, ddim yn bodloni’r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i gerdded yn unol â’r canllawiau Teithio gan Ddysgwyr rhwng 1 Teras Vaughan ac Ysgol Gyfun Aberpennar yn unig. I'r rhai sy'n byw i'r de o 1 Teras Vaughan, gellir cerdded ar hyd y llwybr o The Feel Good Factory ar hyd Is-lwybr 1 ac Is-lwybr 2 i ail-ymuno a'r Prif Lwybr ar ôl 59 Heol Penrhiwceibr, ac felly mae ar gael.

9.1.2 Gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr, ac i'r llwybr cyfan ddod ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cynnal asesiad o’r droedffordd wrth iddi gulhau ar hyd ochr ddwyreiniol y B4275 (rhwng Coedlan Pentwyn a Theras Vaughan) i ddarparu mesurau gwella ar gyfer gwella diogelwch cerddwyr. Bydd angen rhoi un neu fwy o’r mesurau hyn ar waith cyn y bernir bod y rhan hon o’r llwybr rhwng The Feel Good Factory ac 1 Teras Vaughan ar gael, a gall gynnwys y canlynol:
    - ➢ Mesurau gwella/lledu llwybrau troed.
    - ➢ Mesurau lleihau cyflymder i leihau cyflymderau cerbydau wrth ddynesu at y tro i 20mya neu lai.

9.1.3 Gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn parhau i gael ei gyfyngu gan fagiau bin a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

## 9.2 Is-lwybr 1 – Pont Pentwyn i Bont Tref Aberpennar (gan ymuno â'r Prif Lwybr)

9.2.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. ***Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded*** i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn parhau i gael ei gyfyngu gan fagiau bin a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

## 9.3 Is-lwybr 2 – Pont Pentwyn i'r B4275 Heol Penrhiwceibr (ail-ymuno â'r Prif Lwybr)

9.3.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

REDSTART

Quest House
St Mellons Business Park
Fortran Rd, St. Mellons
Cardiff
CF3 0EY

www.redstartwales.com